## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD 06-02 – Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Gorffennaf yn unol ag adran 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

# CYLLID GIG CYMRU 2002

**CYNNWYS** Paragraff


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Perfformiad ariannol cyffredinol | 5 |
| Prisio presgripsiynau | 30 |
| Twyll yn y GIG | 37 |
| Ailstrwythuro | 41 |
| Casgliadau ac argymhellion | 44 |
| Casgliad cyffredinol | 45 |

Atodiad A: Trafodion perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion Tystiolaeth (Dydd Iau 18 Ebrill 2002)

Atodiad B: Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio

**Cyflwyniad**

1. Mae gwariant blynyddol ar wasanaethau'r GIG yng Nghymru y tu hwnt i £3 biliwn bellach ac yn atebol am tua thraean o gyllideb bloc Cymru. Gallai'r swm hwn gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i fesurau a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ei gyllideb 2002.

2. Ar hyn o bryd mae GIG Cymru yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl Cymru trwy bum awdurdod iechyd a 15 o ymddiriedolaethau GIG. Yn amodol ar fabwysiadu'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, diddymir y pum awdurdod iechyd yn 2003 a bydd y 22 grwp iechyd lleol yn fyrddau iechyd lleol statudol (un ar gyfer pob ardal awdurdod lleol) gyda chyfrifoldeb dros gomisiynu a sicrhau gwasanaethau iechyd yn y cyd-destun lleol.

3. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar Gyllid GIG Cymru. Ar sail ei adroddiad ar gyfer 2002 a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2002[1], derbyniom dystiolaeth gan Mrs Ann Lloyd, Cyfarwyddwraig GIG Cymru a Mrs Sarah Beaver, Pennaeth Cyllid GIG Cymru. Ar yr un pryd, gwnaethom ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Gyllideb Gryno Awdurdodau Iechyd yng Nghymru am 2000-01 a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2002[2]. Ceir trawsgrifiad o'r dystiolaeth yn **Atodiad A**. Hoffem ddiolch i'r tystion am eu hatebion adeiladol a defnyddiol i'n cwestiynau.

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu pedair prif thema:

- perfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru;
- prisio presgripsiynau;
- twyll; ac
- ailstrwythuro.

[1] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: *Cyllid GIG Cymru 2002,* a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Mawrth 2002
[2] Cyfrifon Cryno GIG Cymru am 2000-01, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2002

**Perfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru**

***Canlyniadau 2000-01***

5. Ar gyfer 2000-01, adroddodd GIG Cymru gyfanswm gwarged net o £24.3 miliwn yn cynnwys gwarged o £7.6 miliwn ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG, a gwarged o £16.8 miliwn ar gyfer yr awdurdodau iechyd a diffyg o £0.1 miliwn gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol. Y canlyniad cymharol am 1999-00 oedd diffyg net o £1.6 miliwn yn cynnwys diffyg o £0.7 miliwn ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG, diffyg o £0.5 miliwn ar gyfer yr awdurdodau iechyd a diffyg o £0.4 miliwn gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol[3].

6. Roedd y gwelliant hwn i raddau helaeth o ganlyniad i ddarparu cyllid cynorthwyol strategol o £19.2 miliwn i ymddiriedolaethau GIG oedd wedi mynd i drafferth ariannol i gynorthwyo gyda'i cynlluniau adfer ariannol[4]. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym bod cyllid cynorthwyol strategol pellach o £9.16 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer 2001-02. Ychwanegodd bod cyllid cynorthwyol strategol ond wedi'i ddarparu pan oedd y cynlluniau adfer ariannol yn rhai cadarn ac yn rhai y gellid eu cyflawni. Wrth awdurdodi cymorth o'r fath, roedd yn rhaid cael momentwm gwirioneddol am newid o fewn y sefydliadau oedd yn ei dderbyn, ac roedd yn rhaid iddynt fod yn glir am yr hyn oedd yn ofynnol o'i cynlluniau adfer ariannol[5].

7. Ni fyddai Cyfarwyddiaeth y GIG yn daprau cymorth strategol pellach ar gyfer 2002-03, ond yn hytrach byddai'n sicrhau bod benthyciadau y byddai'n rhai eu had-dalu ar gael. Yn y dyfodol ni fyddai cytundeb i ddileu dyledion o'r fath oni bai fod yr amgylchiadau'n rhai eithriadol.[6]. Yn y cyd-destun hwn nodwn fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu diddymu benthyciadau sy'n ddyledus i awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG yn ardaloedd economi iechyd Dyfed Powys a Bro Taf sydd werth £41.163 miliwn[7].

---

[3] Adroddiad ACC, paragraff 2.2
[4] Adroddiad ACC, paragraff 2.4
[5] C 2 i 4
[6] C 2
[7] "Dechreuad Newydd i'r GIG, meddai Jane Hutt" – Datganiad i'r wasg dyddiedig 23 Ionawr 2002

8. **Derbyniwn iddi fod yn angenrheidiol i ddarparu cyllid cynorthwyol strategol er mwyn galluogi ymddiriedolaethau GIG arbennig i gyflawni eu cynlluniau adfer ariannol. Derbyniwn ymhellach y byddai'n afresymol i roi baich dyledion eu rhagflaenwyr ar y sefydliadau GIG newydd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gellid ystyried camau o'r fath fel dull o wobrwyo perfformiad ariannol gwael a gallai fod yn wrthanogol i sefydliadau gochelgar. Mae ailstrwythuro GIG Cymru a darparu cyllid ychwanegol i'r GIG sy'n deillio o'r gyllideb yn gyfle rhagorol am ddechreuad newydd. Rydym yn argymell yn gryf felly y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn sylweddoli bod angen sefydlogrwydd ariannol ac y dylid gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rydym yn awgrymu hefyd y byddai'n briodol i Gyfarwyddiaeth y GIG amlinellu'n glir o'r cychwyn dan ba amgylchiadau eithriadol y byddai benthyciadau y byddai'n rhaid eu had-dalu ar gael.**

9. Mae problemau a achosir gan reoli ariannol gwael a thrafferthion ariannol yn y GIG yn tynnu oddi ar y prif faes o ddarparu safon gywir o ofal iechyd. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cymryd diddordeb arbennig mewn sefydliadau GIG unigol sy'n cael trafferthion ariannol.

***Rhagweld gwariant***

10. Yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd ar 17 Ionawr 2002 [8] rydym yn argymell y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG a GIG Cymru gydweithio'n glos i sicrhau bod mesurau rhagweld gwell yn cael eu rhoi ar brawf yn llawn ac ar waith erbyn 31 Mawrth 2002 er mwyn sicrhau y gellir gwneud rhagolygon ariannol manwl gywir ar gyfer 2002-03 a'r blynyddoedd dilynol. Ar gyfer 2000-01, cofnododd yr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaeth GIG warged net o £24.3 miliwn o'i gymharu â rhagolygon o warged net o £13.4 miliwn a wnaed dim ond tri mis cyn diwedd y flwyddyn. Y prif reswm pam nad oedd y canlyniad yn unol â'r rhagolwg oedd tanwariant awdurdod iechyd ar wasanaethau meddygol cyffredinol.[9]

11. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym ei bod ers hynny wedi rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith a oedd wedi galluogi Cyfarwyddiaeth y GIG i ddefnyddio'i

[8] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 01-02: Cyfrifon Cryno GIG Cymru 1999-00
[9] Adroddiad ACC, paragraffau 2.6 i 2.10

adnoddau yn llawer mwy effeithiol. Roedd y rhain wedi cynnwys dadansoddiad misol o'r rhagolwg yn erbyn y canlyniad a oedd wedi galluogi'r Gweinidog i drosglwyddo adnoddau oedd dros ben i feysydd targed allweddol. Ar gyfer 2001-02 roedd yn disgwyl tanwariant o tua £9 miliwn yn erbyn y gyllideb, sef canran fechan iawn o'r swm cyfan a benderfynwyd ei roi. Y rheswm am y tanwariant disgwyliedig hwn oedd setliadau strwythurol rhai achosion o esgeulustod clinigol, lle'r oedd wedi disgwyl yn wreiddiol gorfod talu'r swm llawn o flaen llaw.[10]

12. **Nodwn y mesurau a gymerwyd hyd yma i wella cywirdeb y rhagolwg ariannol. Edrychwn ymlaen am gadarnhad ffurfiol o'r canlyniadau ar gyfer 2001-02 a hyd yn oed gwell canlyniad ar gyfer 2002-03. Argymhellwn fod Cyfarwyddiaeth y GIG a chyrff GIG yn parhau i weithredu mesurau priodol i wella'u rhagolwg ariannol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio cyn gynted â phosib i sicrhau'r lefel uchaf o ofal claf**.

***Y Pwll Risg yng Nghymru***

13. Mae'r Pwll Risg yng Nghymru yn cynorthwyo awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i reoli risg a thalu hawliadau'n llawn. Mae'n drefniant hunan-yswiriant y naill i'r llall sy'n cwmpasu pob risg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r GIG ac eithrio ymyrraeth i fusnes ac yswiriant cerbydau. Gweithredir y Pwll gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych a chaiff ei reoli gan Grwp sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau iechyd a Chyfarwyddiaeth y GIG.

14. Yn ystod 2000-01, gwariodd y Pwll Risg £10.4 miliwn, a ddaeth o'r premiymau a dalwyd gan ei aelodau. Yn ogystal, adroddodd y Pwll rhwymedigaethau posib o £92 miliwn ar 31 Mawrth 2001 mewn perthynas â hawliadau esgeulustod clinigol a niwed personol y byddai'n rhaid cael hwn o bremiymau fyddai'n cael eu talu mewn blynyddoedd i ddod. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys rhwymedigaethau amodol lle disgwylir posibilrwydd yn unig o setliad a lle nad oes darpariaeth wedi'i gwneud.

15. Yn 2001-02, talodd y Pwll £18.6 miliwn yn fwy na'r disgwyl a thanwariant mewn meysydd eraill o fewn cyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r arian dros

[10] C 9

ben o raglenni di-gyfalaf a dalodd am y gwariant hwn. Disgwylir i'r Pwll hefyd gynyddu premiymau ar gyfer 2002-03 i'r perwyl o £29 miliwn[11].

16. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym mai'r nifer helaeth o hawliadau, gyda rhai ohonynt yn ddrud iawn a llawer oedd yn gysylltiedig â niweidiau a achoswyd ar enedigaeth tua 10 neu 12 mlynedd yn ôl oedd y rheswm am y cynnydd brawychus hwn. Ychwanegodd fod y Pwll wedi arwain ar bryder difrifol am ei allu i ymdopi â maint sylweddol iawn o waith a swm sylweddol iawn o arian. Felly, roedd wedi sefydlu adolygiad allanol i ystyried ei reolaeth a threfniadau rheoli yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Archwiliad Gwladol a'r Comisiwn Archwilio yn rhan o'r tîm adolygu allanol. Bydd yr arolwg yn edrych ar well system o ddatrys hawliadau, dull gwahanol o reoli hawliadau, rheoli'r gwaith o olrhain yr hawliadau yn gyfreithlon a chronni rhwymedigaethau a risg yng nghyfrifon yr ymddiriedolaethau. Un o brofion y grwp adolygu allanol yw sicrhau gwerth am arian wrth weithredu cynllun esgeulustod clinigol i Gymru gan ddysgu fel sy'n briodol o waith a gyflawnwyd yn Lloegr a'r Alban sy'n wynebu'r un problemau[12].

17. **Rydym yn parhau'n bryderus iawn am gynnydd parhaus hawliadau esgeulustod clinigol. Mae costau o'r fath yn creu bwlch mawr yn narpariaeth ariannol ychwanegol y GIG a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y Trysorlys. Hyderwn y bydd yr arolwg allanol o drefniadau rheoli'r Pwll Risg yng Nghymru yn ystyried pob agwedd ar reoli hawliadau o'r digwyddiad i'r datrys a'r setliad. Dylai unrhyw system newydd ddysgu oddi wrth arfer gorau mewn mannau eraill a chynnwys cymhellion (er enghraifft yn y drefn gosod premiwm) er mwyn darparu'r safonau gorau posibl o ofal claf, lleihau achosion a gwariant ar esgeulustod clinigol a darparu gwerth am arian i'r trethdalwyr.**

18. **Er nad ydym yn beirniadu Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Dinbych, gofynnwn a yw gweithredu'r Pwll gan un corff GIG ar ran GIG Cymru gyfan yn dal yn briodol o ystyried cymhlethdod cynyddol rheoli a datrys hawliadau a'r swm o arian sy'n gysylltiedig bellach â hyn. Mae ailstrwythuro**

[11] Adroddiad ACC, paragraff 3.45 i 3.48
[12] C 15 i 22

**parhaus GIG Cymru yn cynnig cyfle gwych i edrych o'r newydd ar y trefniadau hyn a hyderwn yr eir i'r afael â'r mater fel rhan o'r adolygiad.**

***Perfformiad talu***

19. Mae'n ofynnol i gyrff GIG gydymffurfio â chod 'talu prydlon' CDP (Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain) a gofynion cyfrifeg y Llywodraeth y dylid talu pob anfoneb cydnabyddedig cyn pen 30 diwrnod, oni bai fod cytundeb arall wedi'i wneud gyda'r cyflenwr[13]. Yn ein hadroddiad diwethaf oedd yn cwmpasu'r pwnc hwn[14] mynegwyd pryder fod y GIG , ar lefel Cymru gyfan, ond wedi talu 76.8 y cant o filiau cyn pen y cyfnod 30-diwrnod yn ystod 1999-2000 ac yn enwedig mai ychydig o welliant a gafwyd yn y perfformiad cyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

20. Ar gyfer 2000-01, roedd y sefyllfa wedi gwella fel bod 81.0 y cant o filiau yn cael eu talu cyn pen y cyfnod 30-diwrnod sy'n cynrychioli 94.7 y cant[15] o'u gwerth. Gweithredwyd nifer o fesurau gan Gyfarwyddiaeth y GIG i wella perfformiad talu prydlon[16]. Mae hyn, nid yn unig wedi golygu talu biliau drud ond hefyd sicrhau ymlediad da er mwyn osgoi trafferthion ariannol i gyflenwyr llai[17].

21. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym ei bod wedi gobeithio cyflawni perfformiad o 90 y cant neu fwy ond bod system cyfrifon newydd yn cael ei gosod mewn 12 o'r 15 ymddiriedolaeth GIG a gall rhai ymddiriedolaethau gael trafferthion i gydymffurfio ar gyfer 2002-03. Felly, byddai'n dod yn darged statudol ar gyfer 2003-04[18].

22. Gwnaethom holi hefyd am y llinell sylfaen y gosodwyd y targed talu prydlon yn ei herbyn. Ar gyfer 2000-01, £2.8 biliwn[19] oedd y ffigwr, sy'n elfen fawr o gyfanswm cyllideb y GIG a llawer yn fwy na'r swm a dalwyd i gyflenwyr allanol. Dywedwyd wrthym y gallai fod wedi cynnwys talu cyflog a thaliadau a wnaed o un corff GIG i un arall[20].

---

[13] Adroddiad ACC, paragraff 2.19
[14] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 01-02: Cyfrifon Cryno y GIG Cymru 1999-00
[15] Adroddiad ACC, paragraff 2.20
[16] Adroddiad ACC, paragraff 2.25
[17] C 24
[18] C 24
[19] Adroddiad ACC, paragraff 2.20
[20] C 30 i 35

23. **Rydym yn croesawu'r gwelliant ym mherfformiad talu prydlon ond yn pwysleisio bod angen ymdrechion pellach i sicrhau bod pob bil dilys yn cael ei dalu cyn pen y targed terfynol o 30-diwnod. I'r perwyl hwn rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno targed statudol ar gyfer 2003-04. Pwysleisiwn y dylai'r targed allweddol fod yn berthnasol i'r rhif, yn hytrach na gwerth, y biliau a dalwyd er mwyn sicrhau nad anghofir am gyflenwyr bach.**

24. **Rydym yn argymell hefyd bod Cyfarwyddiaeth y GIG yn sicrhau bod y targed yn cael ei gymhwyso a'i fesur mewn modd cyson ym mhob corff GIG. Dylai gosod system gyfrifo ariannol newydd gynorthwyo yn hyn o beth. Rydym yn ystyried y dylai'r targed ganolbwyntio ar daliadau i gyflenwyr allanol a pheidio â chynnwys cyflogau na thaliadau rhyng-GIG.**

***Cyflawniad yn erbyn targedau cynllun adfer ariannol***

25. Roedd pedair ymddiriedolaeth GIG lle'r oedd gan yr archwilwyr penodedig amheuon am gyflawniad eu targedau cynllun adfer ariannol. O'r rhain roedd Cyfarwyddiaeth y GIG yn monitro'n ofalus iawn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin lle'r oedd targedau ariannol cymeradwy yn annhebygol o gael eu cyflawni ar gyfer 2001-02[21]. Yn achos Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin y prif resymau am y trafferthion oedd yr angen i ddibynnu'n helaeth ar staff asiantaeth a chost dirprwy feddygon oedd yn cyflenwi dros staff meddygol ymgynghorol ac eraill oedd wedi'u gwahardd o'u gwaith. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod y Prif Weithredwr newydd eisoes wedi cymryd camau gweithredu lled llym i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth ac i oresgyn problemau oedd yn gysylltiedig ag achosion mynych o wahardd ymgynghorwyr. Roedd y camau hyn yn cynnwys recriwtio nyrsys ychwanegol a sicrhau cyfle ailhyfforddi i glinigwyr[22].

26. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro hefyd wedi gorfod gwario llawer ar staff asiantaeth. Roedd y sefydliad wedi gweld cynnydd yn ei lwyth gwaith a chynnydd yn nwyster y gwahanol fathau o gleifion a'u gofynion gofal. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi cael trafferthion sylweddol gyda derbyniadau

[21] Adroddiad ACC, paragraffau 2.14 i 2.18
[22] C 43 i 50

meddygol. Roedd Mrs Lloyd wedi bod yn cyfarfod â'r Prif Weithredwr bob pythefnos i fonitro'i gynigion ar gyfer aildrefnu'r sefydliad[23].

27. **Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a gweithredu pob mesur rhesymol i adfer eu sefyllfa ariannol. Rydym yn hynod o bryderus am or-ddibynnu ar staff asiantaeth a chost defnyddio staff asiantaeth, yn ogystal â'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar safon gofal cleifion.**

28. Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon Cryno y GIG 1999-00 gwnaethom annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gytuno ar gynllun adfer ariannol ar gyfer ardal awdurdod iechyd Gwent fel mater o frys[24]. Nid oedd y cynllun hwn wedi'i gymeradwyo gan fod yr archwilydd penodedig yn amheus ynglyn â'i gadernid[25]. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod cynllun diwygiedig ar fin ymddangos ond ni fyddai wedi'i lofnodi cyn y byddai'r Archwiliad Dosbarth yn cytuno.[26].

29. **Rydym yn bryderus am yr amser a gymer i gynhyrchu cynllun derbyniol ar gyfer ardal economi iechyd Gwent ac yn disgwyl i gynllun derbyniol gael ei gwblhau yn ddiymdroi. Rydym yn cytuno â barn Mrs Lloyd fod swyddogaeth rheolwyr yn y GIG wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn nodi bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod rheolwyr GIG yn cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn meddu ar y dulliau angenrheidiol i reoli sefydliadau cymhleth mewn ffordd effeithiol. Rydym hefyd yn cytuno mai cyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth y GIG yw gwneud yn glir yr hyn a ddisgwylir gan reolwyr GIG er mwyn eu cynorthwyo i reoli'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo bellach[27].**

### Prisio presgripsiwn

30. Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon Cryno y GIG 1999-00, gwnaethom nodi bod oedi cyn prisio presgripsiynau yn deillio o brinder yng nghyflenwad cyffuriau

[23] C 1 i 55
[24] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 01-02: Cyfrifon Cryno y GIG Cymru 1999-00
[25] Adroddiad ACC, paragraff 2.18
[26] C 56

[27] C 57

cyffredinol. Roedd contractwyr fferyllol yn methu â dibynnu ar eu cyflenwyr arferol ac yn gorfod prynu o ffynonellau eraill. Roedd Atebion Iechyd Cymru yn cymryd llawer mwy o amser i brosesu presgripsiynau gan fod yn rhaid prisio pob eitem ar wahân.

31. Oherwydd y trafferthion hyn, rodd fferyllwyr yn derbyn taliadau misol ymlaen llaw gan awdurdodau iechyd ar gyfer dosbarthu presgripsiynau, yn seiliedig ar amcangyfrif o lwyth gwaith blaenorol gydag un y cant wedi'i ychwanegu i gwmpasu cynnydd yng nghostau cyffuriau. Roedd y symiau ymlaen llaw hyn wedi arwain at or-daliadau i fferyllwyr o rhwng £5 miliwn a £6 miliwn a'r awdurdodau iechyd fyddai'n rhaid adennill y rhain. Cawsom gyngor yn y gorffennol y byddai ôl-groniad y prisio wedi'i glirio erbyn mis Tachwedd 2001. Roeddem hefyd yn bryderus i nodi y byddai'r broses o adennill y gordaliadau yn symud o 2001-02 i 2002-03[28].

32. Cafwyd adroddiad gan yr Archwiliwr Cyffredinol yn ddiweddar bod y dyddiad y byddai ôl-groniad y prisio wedi'i glirio wedi symud i fis Awst 2002, ac na fyddai'r gwaith o adennill gordaliadau yn cychwyn bellach tan yn gynnar yn 2003[29]. Roedd Mrs Lloyd yn priodoli'r oedi pellach i'r ffaith nad oedd lefelau cynhyrchu disgwyliedig wedi'u cyrraedd ac i gynnydd yn nifer y presgripsiynau. Roedd problemau hefyd o ran cadw staff dros dro i gynorthwyo gyda'r gwaith o fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Ychwanegodd fod Atebion Iechyd Cymru yn hollol hyderus y byddent wedi dal i fyny â'r prisio erbyn diwedd mis Gorffennaf ac y byddai'r ôl-groniad wedi'i glirio erbyn mis Tachwedd 2002[30].

33. **Rydym yn siomedig â'r oedi pellach i glirio ôl-groniad prisio presgripsiynau a'r oedi cyn adennill gordaliadau i fferyllwyr. Mae'r oedi annerbyniol hwn wedi cael effaith andwyol ar yr ymdrechion i wella rhagolygon ariannol ac mae'r prinder gwybodaeth presennol ar arferion meddygon teulu o roi presgripsiwn wedi'i gwneud yn anoddach rheoli cost cyffuriau. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ac Atebion Iechyd Cymru sicrhau nad oes**

---

[28] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 01-02: Cyfrifon Cryno y GIG Cymru 1999-00
[29] Adroddiad ACC, paragraffau 3.49 i 3.55

[30] C 59 i 63

**oedi pellach ac y bydd yr holl fater truenus wedi dod i ben ymhell cyn diddymu’r awdurdodau iechyd yn 2002-03.**

34. **Nodwn fod cyfran o wybodaeth sy’n ymwneud â rhoi presgripsiwn ac sy’n berthnasol i 2000 wedi’i rhyddhau i’r cyhoedd yn ddiweddar. Hyderwn y bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac yr ychwanegir ati fel y gall arferion rhoi presgripsiwn a’r costau cysylltiedig gael eu rheoli mewn dull mwy strwythurol gan y byrddau iechyd lleol newydd.**

35. Cymhwysodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar Gyfrifon Cryno Awdurdodau Iechyd yng Nghymru 2000-01 mewn perthynas a’r diffyg posib yn refeniw presgripsiwn na ellid ei fesur yn ystadegol. Roedd y cymhwysiad hwn yn adlewyrchu’r hyn a roddwyd i gyfrifon pob un o’r pum awdurdod iechyd gan eu harchwilwyr penodedig[31]. Tynnwyd y mater hwn i’n sylw gyntaf yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol *'Cael yr Incwm Gorau o Daliadau Presgripsiwn’* lle’r oedd yn amcangyfrif y gellid colli hyd at £15 miliwn o incwm y flwyddyn o ganlyniad i ganiatáu eithriadau rhag talu am bresgripsiwn i unigolion nad oeddent yn bodloni’r meini prawf perthnasol.

36. **Yn ein barn ni, mae’n hanfodol bod yr awdurdodau iechyd yn gwneud amcangyfrif rhesymol a chadarn o’r prinder mewn refeniw o’r taliadau presgripsiwn ac yn defnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer cymryd camau gweithredu priodol i herio twyll a chamgymeriad. Nodwn y camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma[32] ac argymhellwn fod yr awdurdodau iechyd yn parhau i weithio’n agos gyda’u harchwilwyr penodedig ac Atebion Iechyd Cymru i fynd i’r afael â’r mater hwn.**

## Twyll yn y GIG

37. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio mentrau parhaus i nodi ac atal twyll o fewn GIG Cymru. Dechreuodd y tîm o chwech yn y Gwasanaeth Gweithredol Gwrth Dwyll (Cymru) weithredu’n llawn ym mis Awst 2001. Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol eu bod yn archwilio 20 achos ond y byddai’r nifer hwn yn cynyddu’n sylweddol unwaith y byddai arbenigwyr atal

[31] Cyfrifon Cryno y GIG Cymru ar gyfer 2000-01, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2002

[32] C 65 i 66

twyll lleol oedd yn gweithio gyda chyrff GIG unigol wedi cwblhau eu hyfforddiant[33]

38. Un o'r heriau allweddol yw i newid yr agwedd ddiwylliannol sydd gan y cyhoedd, contractwyr GIG a staff GIG tuag at dwyll, a chynyddu ymwybyddiaeth o botensial twyll a'i effaith ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gofal claf[34]. Mae Cyfarwyddiaeth y GIG wedi cychwyn ymgyrch yn y cyfryngau ac mae'r Gwasanaeth Gweithredol Gwrth Dwyll (Cymru) yn cynllunio cyfres o gyflwyniadau ymwybyddiaeth o dwyll a bydd yn gweithredu rhaglenni addysgol i ymarferwyr ynglyn â materion sy'n ymwneud ag atal twyll[35].

39. Un o'r tasgau cynnar yw cael asesiad manwl o lefel twyll yn GIG Cymru. Mae Cyfarwyddiaeth y GIG, gan weithio gyda'r Gwasanaeth Gweithredol Gwrth Dwyll yn cynllunio cyfres o ymarferion i gael y wybodaeth hon. Mae'r cyntaf o'r tri – twyll presgripsiwn – eisoes ar waith ac mae ymarferion eraill yn cwmpasu eithriadau optegol a deintyddol wedi'u cynllunio. Bydd yr ymarferion hyn yn sefydlu llinell sylfaen er mwyn gallu gwneud cymariaethau mewn blynyddoedd i ddod a gyda lefelau twyll yng ngweddill y Deyrnas Unedig[36].

40. **Rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill i asesu graddau'r twyll yn GIG Cymru ac yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Rydym hefyd yn croesawu'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o dwyll a'i effaith ar bwrs y cyhoedd. Mae angen trin y mesurau a weithredir i atal twyll yn sensitif fel nad yw pobl Cymru'n ofni hawlio pan fyddant yn gymwys i wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau yn y man y darperir gwasanaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gall fod angen newid systemau ar gyfer hyn er mwyn cynnwys osgoi twyll mewn gweithdrefnau gweithredu.**

### Ailstrwythuro

41. Wrth dderbyn tystiolaeth gan Mrs Lloyd gwnaethom ystyried yn gryno'r cynnydd a wnaed i ailstrwythuro GIG Cymru. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym y byddai'n

[33] Adroddiad ACC, paragraffau 3.16 i 3.36
[34] C 71
[35] C 79
[36] Adroddiad ACC, paragraffau 3.16 i 3.18

darparu adroddiad i'r Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn canol mis Mai 2002 ar amcangyfrif o'r costau. Ychwanegodd y byddai newid diwylliant radical yn cyd-fynd â'r ailstrwythuro oedd yn cynnwys rheoli perfformiad a thynhau ar atebolrwydd[37].

42. Mae gan Awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG ymreolaeth i benderfynu ar amodau a thelerau pecynnau diswyddo. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad bod archwilwyr penodedig wedi mynegi pryderon ynglyn â dehongli a chymhwyso'r canllawiau a roddwyd i gyrff GIG ynglyn ag ymddeoliad cynnar a diswyddiadau. Mae'n ystyried y dylai pecynnau o'r fath fod yn gost effeithiol bob amser ac na ddylent arwain at welliant i un unigolyn ar draul pawb arall. O ystyried y newidiadau strwythurol sy'n wynebu GIG Cymru, awgrymodd y byddai o ddefnydd cael cyfarwyddyd mwy ffurfiol a chlir gan gyfarwyddiaeth y GIG ar ddehongli contractau cyflogaeth sy'n bodoli eisoes ac ar ddrafftio rhai newydd[38]. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym ei bod yn awr wedi rhyddhau canllawiau ynglyn â thorri staff. Byddai'n ceisio cadw'r diswyddiadau i'r lefel isaf posib a byddai Cyfarwyddiaeth y GIG yn edrych ar yr holl setliadau diswyddo posib o hyn ymlaen[39].

43. **Nodwn y bydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn amcangyfrif costau ailstrwythuro a byddem yn gwerthfawrogi diweddariad rheolaidd ar y gwir gostau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod yn rhaid gallu amddiffyn diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar yn gyhoeddus erbyn hyn a nodwn yn y cyd-destun hwn bod Cyfarwyddiaeth y GIG bellach wedi rhoi cyfarwyddyd ar doriadau staff. Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithredu ymhellach ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol gan ddarparu cyngor fel bo'n briodol ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd.**

---

[37] C 90 i 91
[38] Adroddiad ACC, paragraffau 3.11 i 3.12
[39] C 94

**Casgliadau ac argymhellion**

44. Yng ngoleuni ein canfyddiadau, dyma'n casgliadau a'n argymhellion:

*Ar berfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru*

(i) Derbyniwn iddi fod yn angenrheidiol i ddarparu cyllid cynorthwyol strategol er mwyn galluogi rhai ymddiriedolaethau GIG arbennig i gyflawni eu cynlluniau adfer ariannol. Derbyniwn ymhellach y byddai'n afresymol i roi baich dyledion eu rhagflaenwyr ar y sefydliadau GIG newydd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gellir ystyried camau o'r fath fel dull o wobrwyo perfformiad ariannol gwael ac y gallai fod yn wrthanogol i sefydliadau gochelgar.

(ii) Mae ailstrwythuro GIG Cymru a darparu cyllid ychwanegol i'r GIG sy'n deillio o'r gyllideb yn gyfle rhagorol am ddechreuad newydd. Rydym yn argymell yn gryf felly y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn sylweddoli bod angen sefydlogrwydd ariannol ac y dylid gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael i holl. Rydym yn awgrymu hefyd y byddai'n briodol i Gyfarwyddiaeth y GIG amlinellu'n glir o'r cychwyn dan ba amgylchiadau eithriadol y byddai benthyciadau y byddai'n rhaid eu had-dalu ar gael.

(iii) Nodwn y mesurau a gymerwyd hyd yma i wella cywirdeb y rhagolwg ariannol. Edrychwn ymlaen am gadarnhad ffurfiol o'r canlyniadau ar gyfer 2001-02 a hyd yn oed gwell canlyniad ar gyfer 2002-03. Argymhellwn fod Cyfarwyddiaeth y GIG a chyrff GIG yn parhau i weithredu mesurau priodol i wella'u rhagolwg ariannol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio cyn gynted â phosib i sicrhau'r lefel uchaf o ofal claf.

(iv) Rydym yn parhau'n bryderus iawn am gynnydd parhaus hawliadau esgeulustod clinigol. Mae costau o'r fath yn creu bwlch mawr yn narpariaeth ariannol ychwanegol y GIG a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y Trysorlys. Hyderwn y bydd yr arolwg allanol o drefniadau rheoli'r Pwll Risg yng Nghymru yn ystyried pob agwedd ar reoli hawliadau o'r digwyddiad i'r datrys a'r setliad.

(v) Dylai unrhyw system newydd ar gyfer rheoli esgeulustod clinigol ddysgu oddi wrth arfer gorau mewn mannau eraill a chynnwys cymhellion mewnol er mwyn darparu’r safonau gorau posibl o ofal claf, lleihau achosion a gwariant ar esgeulustod clinigol a darparu gwerth am arian i’r trethdalwyr.

(vi) Er nad ydym yn beirniadu Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Dinbych, gofynnwn a yw gweithredu’r Pwll gan un corff GIG ar ran GIG Cymru gyfan yn dal yn briodol o ystyried cymhlethdod cynyddol rheoli a datrys hawliadau a’r swm o arian sy’n gysylltiedig bellach â hyn. Mae ailstrwythuro parhaus GIG Cymru yn cynnig cyfle gwych i edrych o’r newydd ar y trefniadau hyn a hyderwn yr eir i’r afael â’r mater fel rhan o’r adolygiad.

(vii) Rydym yn croesawu’r gwelliant ym mherfformiad talu prydlon ond yn pwysleisio bod angen ymdrechion pellach i sicrhau bod pob bil dilys yn cael ei dalu cyn pen y targed terfynol o 30-diwnod. I’r perwyl hwn rydym hefyd yn croesawu’r bwriad i gyflwyno targed statudol ar gyfer 2003-04. Pwysleisiwn y dylai’r targed allweddol fod yn berthnasol i’r rhif, yn hytrach na gwerth, y biliau a dalwyd er mwyn sicrhau nad anghofir am gyflenwyr bach.

(viii) Rydym yn argymell hefyd bod Cyfarwyddiaeth y GIG yn sicrhau bod y targed yn cael ei gymhwyso a’i fesur mewn modd cyson ym mhob corff GIG. Dylai gosod system gyfrifo newydd gynorthwyo yn hyn o beth. Rydym yn ystyried y dylai’r targed ganolbwyntio ar daliadau i gyflenwyr allanol a pheidio â chynnwys cyflogau na thaliadau rhyng-GIG.

(ix) Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro a gweithredu pob mesur rhesymol i wella’u sefyllfa ariannol. Rydym yn hynod o bryderus am or-ddibynnu ar staff asiantaeth a chost defnyddio staff asiantaeth, yn ogystal â’r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar safon gofal cleifion.

(x) Rydym yn bryderus am yr amser a gymer i gynhyrchu cynllun derbyniol ar gyfer ardal economi iechyd Gwent ac yn disgwyl i gynllun derbyniol gael ei gwblhau yn ddiymdroi. Rydym yn cytuno â barn Mrs Lloyd fod swyddogaeth rheolwyr yn y GIG wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn nodi bod camau’n cael eu cymryd i sicrhau bod rheolwyr GIG yn

cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn meddu ar y dulliau angenrheidiol i reoli sefydliadau cymhleth mewn ffordd effeithiol. Rydym hefyd yn cytuno mai cyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth y GIG yw gwneud yn glir yr hyn a ddisgwylir gan reolwyr GIG er mwyn eu cynorthwyo i reoli'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo bellach.

*Ar brisio presgripsiynau*

(xi) Rydym yn siomedig â'r oedi pellach i glirio ôl-groniad prisio presgripsiynau a'r oedi cyn adennill gordaliadau i fferyllwyr. Mae'r oedi annerbyniol hwn wedi cael effaith andwyol ar yr ymdrechion i wella rhagolygon ariannol ac mae'r prinder gwybodaeth presennol ar arferion meddygon teulu o roi presgripsiwn wedi'i gwneud yn anoddach rheoli cost cyffuriau. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ac Atebion Iechyd Cymru sicrhau nad oes oedi pellach ac y bydd yr holl fater truenus wedi dod i ben ymhell cyn diddymu'r awdurdodau iechyd yn 2002-03.

(xii) Nodwn fod cyfran o wybodaeth sy'n ymwneud â rhoi presgripsiwn ac sy'n berthnasol i 2000 wedi'i rhyddhau i'r cyhoedd yn ddiweddar. Hyderwn y bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac yr ychwanegir ati fel y gall arferion rhoi presgripsiwn a'r costau cysylltiedig gael eu rheoli mewn dull mwy strwythurol gan y byrddau iechyd lleol newydd.

(xiii) Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod yr awdurdodau iechyd yn gwneud amcangyfrif rhesymol a chadarn o'r prinder mewn refeniw o'r taliadau presgripsiwn ac i ddefnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer cymryd camau gweithredu priodol i herio twyll a chamgymeriad. Nodwn y camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma ac argymhellwn fod yr awdurdodau iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda'u harchwilwyr penodedig ac Atebion Iechyd Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.

*Ar dwyll yn y GIG*

(xiv) Rydym yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill gyflawnir i asesu graddau'r twyll yn GIG Cymru ac yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Rydym hefyd yn croesawu'r mesurau sy'n cael eu gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o dwyll a'i effaith ar bwrs y cyhoedd. Mae angen trin y

mesurau a weithredir i atal twyll yn sensitif fel nad yw pobl Cymru'n ofni hawlio pan fyddant yn gymwys i wneud hynny. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau yn y man y darperir gwasanaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gall fod angen newid systemau ar gyfer hyn er mwyn cynnwys osgoi twyll mewn gweithdrefnau gweithredu.

*Ar ailstrwythuro*

(xv) Nodwn y bydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn amcangyfrif costau ailstrwythuro a byddem yn gwerthfawrogi diweddariad rheolaidd ar y gwir gostau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod yn rhaid gallu amddiffyn diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar yn gyhoeddus erbyn hyn a nodwn yn y cyd-destun hwn bod Cyfarwyddiaeth y GIG bellach wedi rhoi cyfarwyddyd ar doriadau staff. Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithredu ymhellach ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol gan ddarparu cyngor fel bo'n briodol ar ddrafftio contractau cyflogaeth newydd.

**Casgliad cyffredinol**

45. Yn ei Gyllideb ar gyfer 2002, amlinellodd y Canghellor ei gynnig i godi refeniw ychwanegol er lles y GIG. Mae hawl gan bobl Cymru i ddisgwyl fod yr adnoddau sydd ar gael i GIG Cymru yn cael eu defnyddio'n ddoeth, gan ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian a'r gofal i gleifion o ansawdd gorau posibl. Mae ailstrwythuro GIG Cymru yn gyfle da i sicrhau newidiadau y mae eu hangen yn ddybryd. Gobeithiwn na fydd y cyfle'n cael ei wastraffu.